

Ardal Fenter Glannau Port Talbot

Cynllun Strategol 2018 - 2021



Chwefror 2019

Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
1. CEFNDIR	3
2. GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER CYFLENWI	4
3. CYNNYDD A CHYFLAWNIADAU ERS Y DECHRAU	5
4. BLAENORIAETHAU A CHYFEIRIAD Y DYFODOL	9
5. LLYWODRAETHIANT	11
6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDALOEDD MENTER	12

1. CEFNDIR

Ardaloedd Menter Cymru

Mae yna wyth **Ardal Fenter** yng Nghymru. Ardaloedd daearyddol dynodedig yw'r Ardaloedd Menter ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu seilwaith a chymorth busnes o'r radd flaenaf. Mae pob un yn canolbwyntio ar un neu fwy o sectorau busnes allweddol.

Crëwyd Ardal Fenter Glannau Port Talbot yng ngwanwyn 2016 mewn ymateb i golli swyddi yn y diwydiant Dur, ac mae'n gartref i weithlu medrus iawn ac amrywiaeth eang o sectorau – gan gynnwys y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni a'r Amgylchedd ac Adeiladu.

-



Am ragor o fanylion am yr Ardaloedd Menter, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/>

2. GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER CYFLENWI

Nod yr Ardal Fenter yw cefnogi'r sector, y gadwyn gyflenwi a'r sylfaen fusnes bresennol yn yr ardal yn ogystal â gwneud yr economi leol yn fwy amrywiol a'i helpu i fanteisio ar gyfleoedd mantais cymharol i ddenu buddsoddiad newydd a thwf busnes. Bydd blaenoriaethau'r Ardal yn canolbwyntio ar effaith economaidd, cyflawni a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Yn benodol, byddwn yn:

- Adeiladu ar yr uwch sgiliau gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf sydd yn yr ardal i greu swyddi a chyflogaeth
- Datblygu arloesedd o ran cynhyrchion dur ac entrepreneuriaeth a symbylir gan arloesedd
- Creu cyfleoedd gydag Ymchwil Prifysgol leol, genedlaethol a rhyngwladol a sefydliadau datblygu
- Gweithio ochr yn ochr â datblygiad blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe
- Defnyddio eiddo a'r sylfaen busnes a sgiliau lleol i hybu twf a mewnfuddsoddi
- Manteisio ar gysylltiadau trafndiaeth strategol ffordd, rheilffordd a môr
- Cefnogi'r cysylltiad gyda'r diwydiant dur a'n cymunedau lleol
- Gweithio tuag at hwyluso mwy o ofod diwydiannol o ansawdd uchel yn yr Ardal Fenter i gyflymu buddsoddiad a datblygiad.

Ystyriaethau allweddol o ran seilwaith ac eiddo

- Cyflenwi seilwaith TGCh cyflawn;
- Creu perthynas synergyddol gyda chwmni Tata, Port Talbot
- Datblygu gallu'r Ardal Fenter o ran ynni a'r amgylchedd
- Adeiladu unedau busnes a swyddfa addas ynghyd â chodi adeilad arall ar gyfer Canolfan Arloesi Bae Baglan.

3. CYNNYDD A CHYFLAWNIADAU ERS Y DECHRAU

Mae cynnydd yn yr Ardal Fenter yn unol ag amcanion y Bwrdd yn cynnwys:

- Mae sefydlu'r Ardal wedi cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli ac yn annog rhai i fanteisio ar gyfleoedd economaidd newydd
- Mae Lwfansau Cyfalaf Uwch wedi'u sicrhau ar gyfer 3 safle allweddol o fewn yr Ardal
- Mae'r Bwrdd wedi gweithio'n galed i ddeall anghenion busnesau lleol
- Mae'r Bwrdd wedi cyflenwi rhaglen Arweinyddiaeth IoN gyda Phrifysgol Abertawe
- Mae'r Bwrdd yn parhau i weithio gyda UK Steel ar ddatblygu'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol.

Perfformiad

- Ers dechrau Ardal Fenter Glannau Port Talbot yn 2016 hyd at 31 Mawrth 2018, mae 149.5 o swyddi wedi cael eu cefnogi. O'r rhain, roedd 141.5 yn swyddi a grëwyd o'r newydd, a 29 ohonynt gyda chwmni technoleg olew a nwy, Vector International Ltd.
- Yn yr un cyfnod, buddsoddwyd cyfanswm o £7.7m, sef £5.5m o'r sector cyhoeddus a £2.2m o'r sector preifat.
- Prosiectau trafndiaeth oedd y prif fuddsoddiadau sector cyhoeddus e.e. £1.12m Hwb Trafnidiaeth Integredig a £946K – Gwelliannau Cynaliadwy â Blaenoriaeth i'r Coridor Trafnidiaeth.
- Rydym wedi sicrhau Lwfansau Cyfalaf Uwch (ECA) i dri safle penodol o fewn yr Ardal.
- Mae'r Ardal wedi'i hymestyn i gwmpasu safle Tata Steel yn ei gyfanrwydd.

Gwaith Newydd

Bydd y Bwrdd yn:

- Adolygu'n barhaus y strategaeth a ddatblygwyd i'r ardal a'r gweithredoedd dilynol.
- Lansio cyfres o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar fusnes dan arweiniad Busnes Cymru.

- Parhau i reoli'r £250k a roddwyd i gefnogi busnesau twf cynnar yn yr Ardal Fenter mewn cysylltiad â chronfa Buddsoddi Arloesedd AgorIP ym Mhrifysgol Abertawe.
- Cefnogi PhD tair blynedd Prifysgol Abertawe i ganolbwyntio ar y cyfleoedd arloesi ddylai lifo drwy'r AF yn sgil cydweithrediad cryfach rhwng academia, busnesau, datblygu rhanbarthol a'r AF.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer trefnu mwy o brentisiaethau o fewn yr ardal. (Yn ddiweddar, bu pump o gwmnïau TGCh yr AF yn ymweld â'r Academiâu Meddalwedd a Seiberddiogelwch yng Nghasnewydd gyda chymorth LIG).
- Trafod a chefnogi'r cyfleoedd a grëwyd gan gronfeydd newydd ar gyfer PDG a Buddsoddiad mewn eiddo Buildings of Tomorrow.
- Cefnogi cwmnïau, fel y cwmni newydd sy'n integreiddio yswiriant, i ddewis safle yn Ardal Fenter Glannau'r Harbwr.

Gwaith Parhaus

- Pwrpas allweddol y Bwrdd i'r dyfodol fydd gweithio gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a gwireddu'r argymhellion yn strategaeth Ardal Fenter Glannau Port Talbot.
- Mae'r Bwrdd, ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, wedi cyflenwi rhaglen Arweinyddiaeth IoN yn llwyddiannus (rhaglen hyfforddi ar gyfer twf busnes). Cynhaliwyd y rhaglen yn benodol ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig o fewn yr AF. Er mwyn ehangu'r gwaith, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno i gefnogi busnesau bach a chanolig o rannau eraill o'r fwrdeistref i gyfranogi. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion adroddiad y Bartneriaeth Hyfforddi Sgiliau Lleol ar sgiliau yn y Fwrdeistref. Mae 14 o gwmnïau lleol wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac roedd yr adborth yn bositif. Mae ail raglen Arweinyddiaeth IoN bellach ar y gweill gyda 14 o gyfranogwyr o'r AF.
- Mae'r Bwrdd yn falch iawn o fod wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu mecanwaith y Gronfa Arloesi. Bydd yn gweithio'n galed dros y tair blynedd nesaf i drosi'r arian yn gefnogaeth i fusnesau smart sy'n dymuno tyfu eu heiddo deallusol yn yr AF.
- Mae Bwrdd yr AF wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â busnesau yn yr Ardal ac i ddeall eu hanghenion. Fel enghraifft o hyn, cynhaliodd y Bwrdd archwiliad sgiliau o fusnesau yn yr AF a defnyddiwyd yr allbynnau fel tystiolaeth i lansio rhaglen hyfforddi sgiliau peilot, dan nawdd yr Adran Addysg a Sgiliau, a roddodd £135k i 15 o gwmnïau lleol ar gyfer ariannu hyd at 300 diwrnod o hyfforddiant.

- Bydd y Bwrdd yn parhau i edrych ar ffyrdd o weithio gyda UK Steel i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol. Mae hefyd wedi nodi cyfleoedd posibl eraill o fewn y sectorau adeiladu, diwydiannau creadigol a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, a bydd yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol allweddol i archwilio ffyrdd posibl o fanteisio ar y cyfleoedd hyn, a pha seilwaith fydd ei angen i'w gwireddu.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd newydd Ardal Fenter Glannau Port Talbot ar 29 Tachwedd 2018.

Gwaith wedi'i Gwblhau

- Gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, lansiodd y Bwrdd Google Garage yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2016. Daeth dros 150 o fusnesau draw i'r digwyddiad deuddydd a oedd yn rhad ac am ddim. Mae nifer o fusnesau, yn enwedig yn y farchnad dwristiaeth leol, wedi nodi eu bod eisoes wedi cael budd mewn perthynas â'u gwefannau, marchnata drwy lwyfan Google a'r arbedion cost wrth iddyn nhw greu gwefannau eu hunain. Dychwelodd Google ym mis Chwefror gan gyfrannu mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn yr ysgol newydd yn Ystalyfera.
- Rhoddodd yr AF ei chefnogaeth i ymweliad astudio deuddydd gan 35 o fyfyrwyr Cynllunio Trefol a 5 staff o Brifysgol Washington yn ystod Gorffennaf ac Awst 2018.

Perfformiad yr Ardal Fenter

Caiff diweddariad ar gynnydd yn erbyn prosiectau allweddol ledled yr Ardaloedd Menter ei gyhoeddi'n flynyddol (gweler Adran 6 – Cyhoeddiadau Blaenorol yr Ardal Fenter am ddolenni i'r dogfennau perthnasol).

Perfformiad

- Ers dechrau Ardal Fenter Glannau Port Talbot yn 2016 hyd at 31 Mawrth 2018, mae 149.5 o swyddi wedi cael eu cefnogi. O'r rhain, roedd 141.5 yn swyddi a grëwyd o'r newydd, a 29 ohonynt gyda chwmni technoleg olew a nwy, Vector International Ltd.
- Yn yr un cyfnod, buddsoddwyd cyfanswm o £7.7m, sef £5.5m o'r sector cyhoeddus a £2.2m o'r sector preifat.

Cynllun Ardrethi Busnes yr Ardaloedd Menter

Lansiwyd Cynllun Ardrethi Busnes yr Ardaloedd Menter ym mis Hydref 2012 fel modd i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig mewn Ardaloedd Menter yng Nghymru mewn perthynas â'u rhwymedigaethau ardrethi busnes. Ers y dechrau, mae Cynllun Ardrethi Busnes yr Ardaloedd Menter wedi rhoi help ariannol i 34 o fusnesau o fewn Ardal Fenter Glannau Port Talbot gan gynnig dros £676,000 iddynt tuag at gost eu hardrethi busnes. Gan weithio gyda'r Ardaloedd Menter eraill, bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y grant hwn ac yn annog busnesau lleol i fanteisio ar y cynllun, cyn belled â bod LIC yn parhau i gefnogi Cynllun Ardrethi Busnes yr Ardaloedd Menter.

4. BLAENORIAETHAU A CHYFEIRIAD YR ARDAL YN Y DYFODOL

Mae'r Bwrdd wedi nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol canlynol ar gyfer datblygu'r Ardal ymhellach wrth symud ymlaen:

Yn amodol ar archwiliad o adnoddau a dod i gytundeb â LIC ynghylch cyfeiriad ac ariannu, y cam nesaf i Ardal Fenter Glannau Port Talbot yw creu rhaglen waith gan gynnwys uwch gynllun i symud ymlaen argymhellion yr ymgynghoriad diweddar ar gyfer strategaeth Ardal Fenter Glannau Port Talbot.

Yn ogystal ag annog datblygu twf lleol ym musnesau presennol yr AF a'r AF fel safle ar gyfer Mewnfuddsoddiad, dyma'r rhaglenni gwaith posibl sy'n codi o'r gweithgaredd hwn ac sy'n cyd-fynd â'r strategaeth:

- **Comisiynu Uwchgynllun Seilwaith**

Mae diffyg safleoedd datblygu sydd ar gael ar unwaith, ac mae angen cryn dipyn o fuddsoddiad pellach ar wasanaethau safle, ffyrdd mynediad lleol a dadlygru o'r gorffennol diwydiannol. Mae angen gwaith pellach i fesur a chostio'r gwaith angenrheidiol yn llawn ac i ddiweddarau'r uwchgynllun strategol a'r strategaeth ofodol ar gyfer yr Ardal Fenter gyfan gyda'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon.

- **Buddsoddi yn natblygiad gofod busnes arbenigol**

Mae prinder eiddo masnachol sydd ar gael a thystiolaeth gref o ddiddordeb gan ddarpar feddianwyr – yn aml gyda disgwyliadau o feddiannaeth yn y tymor byr. Bydd sicrhau bod digon o ofod ar gyfer cynhyrchu a phrototeipio o ansawdd uchel, ar gael ar drwydded tymor byr, hefyd yn helpu i angori buddsoddiad Ymchwil a Datblygu Lleol. Gallai hynny hefyd olygu bod gofod addas i ddatblygu syniadau sy'n cael eu creu yn y brifysgol. Bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu Achos Busnes ariannol i sicrhau cyllid partneriaeth.

- **Ffurio Cronfa Seilwaith ac Eiddo pwrpasol**

Wrth ymateb i'r Uwchgynllun Seilwaith, mae angen rhaglen o fuddsoddiad mewn seilwaith fesul cam er mwyn paratoi safleoedd mewn partneriaeth â'r tiffeddianwyr sector preifat i greu cyfleoedd datblygu mwy parod i feddianwyr busnes. Efallai y bydd angen cyllid pellach hefyd i fynd i'r afael â bylchau o ran hyfywdra datblygu eiddo o gofio'r cyfyngiad ychwanegol yn sgil cyflwr annormal y tir. Bydd ffurfio cronfa bwrpasol, o bosibl wedi'i rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn caniatáu ymateb cyflymach i ymholiadau busnes, a hynny wrth sicrhau uniondeb effeithiol o ran buddsoddiad cyhoeddus.

Gellir gwireddu rhai o'r gweithredoedd hyn gyda'r adnoddau sydd eisoes ar gael a mwy o gydweithio â phartneriaid strategol. Lle bo angen buddsoddiad cyfalaf newydd, bydd y Bwrdd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes pellach i sicrhau arian ar y cyd o ffynonellau amrywiol.

- **Cynyddu amlygrwydd ynghylch potensial Ardal Fenter Glannau Port Talbot yn y farchnad**

Dylid creu hunaniaeth gryfach wrth y prif byrth i'r Ardal Fenter ym Maglan a Margam o draffordd yr M4 drwy godi hysbysfyrddau yn cyhoeddi presenoldeb Ardal Fenter Glannau Port Talbot a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu sydd ar gael ynddi.

Dylid cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddararu hefyd ar wefan Ardaloedd Menter Llywodraeth Cymru ac ar weithgaredd hyrwyddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn unol â'r Cynllun Strategol sydd wedi'i adnewyddu.

- **Sefydlu Rhwydwaith Busnes Ardal Fenter Glannau Port Talbot**

Gellir creu hunaniaeth fusnes gryfach yn Ardal Fenter Glannau Port Talbot drwy feithrin rhwydwaith busnes lleol i feddianwyr gyda digwyddiadau rheolaidd, hyfforddiant anffurfiol ac o bosibl gwahodd siaradwyr o fri i ysgogi cydweithio a rhwydweithio ar draws busnesau.

- **Cefnogaeth a Chyngor Busnes wedi'i Dargedu**

Mae angen cefnogaeth fusnes o werth uchel o fewn sectorau â blaenoriaeth yn Ardal Fenter Glannau Port Talbot gyda'r nod o gynorthwyo busnesau i ehangu, gan weithio gyda thimau arweinyddiaeth lleol ac arbenigwyr allanol.

- **Cefnogaeth i dargedu Bargeinion Sector y DU**

Bydd angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r Bwrdd i gefnogi ac annog busnes ledled Cymru i sicrhau arian drwy Fargeinion Sector y DU gyfan fel sy'n briodol.

- **Hwyluso Twf Busnes drwy fuddsoddi**

Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i ystyried creu cyfleuster buddsoddi o hyd at £250,000 dros dair blynedd, i ddarparu buddsoddiad uniongyrchol i gyfleoedd busnes arloesol sy'n datblygu.

- **Hybu rhaglen unigryw ar Ddatgarboneiddio yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu**

Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys Flexis, i hybu datgarboneiddio yn Ardal Fenter Glannau Port Talbot ac ardal ehangach Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio dulliau arloesol.

Cyllido'r Bartneriaeth

Gellir cyllido rhai o'r gweithredoedd hyn gyda'r adnoddau sydd eisoes ar gael ynghyd â mwy o gydweithio â phartneriaid strategol. Lle bo angen buddsoddiad cyfalaf newydd, bydd Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Glannau Port Talbot ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn

ystyried datblygu Achos Busnes pellach i sicrhau arian ar y cyd o ffynonellau amrywiol.

5. LLYWODRAETHIANT

Byrddau Ardaloedd Menter

Ers y dechrau, mae'r holl Ardaloedd Menter wedi'u harwain gan Fwrdd Cyngori annibynnol o'r sector preifat sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar weithredu a chyflawni cynlluniau gweithredu a blaenoriaethau i'r Ardaloedd.

Er bod trefniadau llywodraethu i rai Ardaloedd wedi'u symleiddio ers 31 Gorffennaf 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod am weld Bwrdd yn cael ei benodi i oruchwylio datblygiadau yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau am gyfnod pellach o dair blynedd hyd 31 Gorffennaf 2021.

Mae manylion am aelodaeth bresennol Bwrdd Cyngori Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi'u cyhoeddi yn:

<https://gov.wales/topics/businessandconomy/growing-the-economy/enterprisezones/port-talbot-waterfront/?lang=en>

6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDALOEDD MENTER

Cynlluniau Strategol

Ardaloedd Menter – Diweddariad Cynnydd Tachwedd 2014

<http://gov.wales/docs/det/publications/141203-ezw-progress-update-en.pdf>

Ardaloedd Menter – Diweddariad Cynnydd Hydref 2013

<http://gov.wales/docs/det/publications/141001-enterprizezone-summary-en.pdf>

Perfformiad Ardaloedd Menter

Prif Ddangosyddion Perfformiad 2017/18

<https://gov.wales/docs/det/publications/enterprise-zone-key-performance-indicators-annual-report-april-2017-to-march-2018.pdf>

Prif Ddangosyddion Perfformiad 2016/17

<http://gov.wales/docs/det/publications/170719-kpi-16-17-en.pdf>

Prif Ddangosyddion Perfformiad 2015/16

<http://gov.wales/docs/det/publications/160802-kpi-15-16-en.pdf>

Prif Ddangosyddion Perfformiad 2014/15

<http://gov.wales/docs/det/publications/150615-ezw-kpi-14-15-en.pdf>

Prif Ddangosyddion Perfformiad 2012/13 a 2013/14

<http://gov.wales/docs/det/publications/140522ezwkpi1213-1314en.pdf>